**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Giles Thorley
Prif Weithredwr
Banc Datblygu Cymru

12 Mehefin 2024

Annwyl Giles,

**Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru: gwaith dilynol pellach**

Yn dilyn ein sesiynau craffu gyda'r Banc a'r Ysgrifennydd Cabinet ar 24 Ebrill, ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Cabinet i ofyn, er mwyn sicrhau tryloywder ac i gynorthwyo ein hymchwiliad, am gopi o'r ddogfen fframwaith y cyfeiriodd ati yn y cyfarfod, sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng y Banc a Llywodraeth Cymru ac sy'n sail i'r berthynas honno. Cyhoeddwyd y llythyr fel papur i'w nodi yn ein cyfarfod ar 22 Mai.

Mae'r Ysgrifennydd Cabinet bellach wedi ymateb ac wedi darparu copi o'r ddogfen fframwaith, y byddwn yn ei chyhoeddi maes o law.

Pan wnaethoch roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig ar 28 Chwefror, gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor i gynrychiolwyr y Banc am y berthynas rhwng y Banc a Llywodraeth Cymru, a'r penderfyniadau ynghylch buddsoddi, yn benodol yn yr achos hwnnw mewn perthynas â'r diwydiant amddiffyn.  Wrth ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Buddsoddi'r Banc:

> *"Rhian Elston: The guidance that is in our document is: are there any reputational issues that we need to consider or are there any ESG considerations that we need to bring into mind? So there isn't a blanket thing that we cannot support the defence sector, and we have supported business in that area. It is about us making an assessment when the deal comes in: what do they do? Are there any concerns?*

*We will sometimes refer that to the Welsh Government, [ein llythrennau italig ni] but we have examples where we have supported the supply chain there, because my view is it is still an important sector within Wales. There are a number of companies that do very well and employ a lot of people as the result of being within that supply chain, so it is not a no."*

Wedi gweld y ddogfen fframwaith, nodwn nad yw'n cyfeirio'n benodol at sut y mae ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethiant (ESG) a risgiau i enw da yn cael eu rheoli a sut y mae materion yn cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru, er ein bod yn nodi y cyfeirir at ystyriaethau ESG yn helaeth yn Adroddiad Blynyddol y Banc ar gyfer 2022-23, gan gynnwys yr adran sy'n ymwneud â fframwaith Rheoli Risg y Banc.

Byddai'n ddefnyddiol, wrth gwblhau gwaith adrodd y Pwyllgor ar gyfer yr ymchwiliad hwn, cael eglurhad ynghylch y ddogfen y cyfeiriwyd ati yn nhystiolaeth y Pwyllgor Materion Cymreig uchod. Mae tudalen 2 o'r ddogfen fframwaith yn nodi iddi gael ei diwygio yn 2021 i egluro ymreolaeth Banc Datblygu Cymru o ran gwneud penderfyniadau. Felly a oedd fersiwn gynharach o'r ddogfen fframwaith yn cynnwys y wybodaeth honno, neu, yn wir, a oes dogfen ychwanegol sy'n llywodraethu sut y mae materion ESG a risg i enw da yn cael eu rheoli fel rhan o'r berthynas rhwng y Banc a Llywodraeth Cymru?

Edrychaf ymlaen at gael ymateb gennych yn fuan i egluro'r mater hwn i'r Pwyllgor.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg